ATODLEN 3

Rheoliadau 10 ac 11

DARPARU GWYBODAETH I'R ASIANTAETH CASGLU DATA CENEDLAETHOL A'R ASIANTAETH FARCIO ALLANOL

# RHAN 1

## Asesiadau yr Ail Gyfnod Allweddol: Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol

**1.**—(1) O ran pob disgybl cofrestredig yn yr ail gyfnod allweddol, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, Rhif unigryw'r disgybl.

(2) O ran pob disgybl o'r fath, yr wybodaeth ganlynol, pan fo'n briodol, mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol—

(a) unrhyw ganlyniad yn ôl asesiad tasg Cwricwlwm Cenedlaethol;

(b) y lefel ar lefel graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflawnodd y disgybl yn ôl asesiad athrawon;

(c) a aseswyd y disgybl gan athrawon wrth weithio tuag at lefel 1;

(ch) a oedd y disgybl yn esempt rhag asesiad athrawon o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(d) a ydyw canlyniad asesiad athrawon heb fod ar gael oherwydd absenoldeb y disgybl.

# RHAN 2

## Asesiadau y Trydydd Cyfnod Allweddol: Asiantaeth Casglu Data Cenedlaethol

**2.**—(1) O ran pob disgybl cofrestredig yng nghyfnod y trydydd cyfnod allweddol, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, Rhif unigryw'r disgybl.

(2) O ran pob disgybl o'r fath, yr wybodaeth ganlynol, pan fo'n briodol, mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol—

(a) y lefel ar lefel graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflawnodd disgybl yn ôl asesiad athrawon;

(b) a aseswyd disgybl gan athrawon wrth weithio tuag at lefel 1;

(c) a aseswyd disgybl gan athrawon ar lefel ar raddfa lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol o dan y pennawd "Perfformiad Eithriadol";

(ch) a oedd y disgybl yn esempt rhag asesiad athrawon o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; ac

(d) a ydyw canlyniad asesiad athrawon heb fod ar gael oherwydd absenoldeb disgybl.

# RHAN 3

## Asesiadau yr Ail Gyfnod Allweddol: Asiantaeth Farcio Allanol

**3.** O ran pob disgybl cofrestredig yn yr ail gyfnod allweddol, yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol—

(a) a oedd y disgybl, ym marn pennaeth yr ysgol, yn gweithio ar lefel 1 neu'n is na hynny ac na roddwyd profion Cwricwlwm Cenedlaethol i'r disgybl;

(b) a oedd y disgybl yn esempt rhag profion Cwricwlwm Cenedlaethol o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(c) a ydyw canlyniad prawf Cwricwlwm Cenedlaethol heb fod ar gael am fod y disgybl yn absennol ar y diwrnod y rhoddwyd y prawf Cwricwlwm Cenedlaethol.

## RHAN 4

### Asesiadau y Trydydd Cyfnod Allweddol: Asiantaeth Farcio Allanol

**4.** O ran pob disgybl cofrestredig yn y trydydd cyfnod allweddol, yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob un o'r pynciau perthnasol—

(a) a oedd y disgybl, ym marn pennaeth yr ysgol, yn gweithio ar lefel 2 neu'n is na hynny ac na roddwyd profion Cwricwlwm Cenedlaethol i'r disgybl;

(b) a oedd y disgybl yn esempt rhag profion Cwricwlwm Cenedlaethol o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(c) a ydyw canlyniad prawf Cwricwlwm Cenedlaethol heb fod ar gael am fod y disgybl yn absennol ar y diwrnod y rhoddwyd prawf Cwricwlwm Cenedlaethol.

## RHAN 5

### Cofrestriadau yr Ail a Thrydydd Cyfnod Allweddol: Asiantaeth Farcio Allanol

**5.** O ran pob disgybl cofrestredig yn yr ail a thrydyddd cyfnod allweddol, rhyw y disgybl, ei ddyddiad geni a'i gyfenw ac yna'i enw cyntaf neu, os oes mwy nag un, yna pob un o'r enwau cyntaf ac, os yw'r wybodaeth mewn ffurf ddarllenadwy ar beiriant, Rhif unigryw'r disgybl.